TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR

TAG (HEN FANYLEB)
CYMRAEG AIL IAITH
UG/ UWCH

HAF 2018

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

CA5

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Hen Fanyleb)

Haf 2018

Uwch Gyfrannol/Uwch

Y STORI FER A THRAWSIEITHU
Cwestiwn 1: Y Stori Fer

Er cyn lleied oedd yn dilyn y cwrs eleni am y tro olaf roedd y safonau yn amrywio'n fawr. Eleni eto roedd y goreuon wedi cyflwyno eu gwaith yn hyderus ac yn aeddfed ond roedd ambell un yn ei chael hi'n anodd llunio brawddegau cydlynol. Roedd gan bob ymgeisydd wybodaeth o'r stori roedd hyn yn welliant ar ddiffygion nifer o ymgeiswyr y llynedd.

(i) Cynnwys

- Dyma'r rhan lle y cafwyd yr atebion gorau unwaith eto.
- Gallai'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ail-gyflwyno pwyntiau'r stori a'r goreuon yn gallu ail adrodd y stori yn ei chyfanrwydd gan sôn am yr holl brif ddigwyddiadau.
- Roedd y goreuon wedi cyflwyno gwaith manwl a chywir ac yn gallu dyfynnu'n bwrpasol ond prin oedd y rhain.
- Er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â digwyddiadau'r stori, roedd eu hymateb yn arwynebol wrth eu trafod a heb fynd i ddigon o fanylder.
- Eleni eto roedd rhai heb wahaniaethu rhwng y stori a'r mynegiant.
- Nifer heb yr adnoddau iaith i adrodd yn gywir am y berthynas rhwng y gwahanol gymeriadau.
- Diwedd y stori - neb yn siŵr iawn beth oedd yn mynd i ddigwydd a heb yr adnoddau iaith i drafod y sefyllfa.

(ii) Arddull

- Syndod oedd i nifer wneud yn well yn yr adran hon na'r adran gyntaf. Er wedi dweud hyn arwynebol ar y cyfan oedd yr atebion.
- Nifer eto yn trafod y themâu a'r plot yn ogystal â'r arddull wrth ateb y cwestiwn.
- Llwyddodd y goreuon i gyfeirio at nifer o'r nodweddion megis y brawddegau byr, cwta ar elfen o sgwrsio rhwydd yn y ddeialog rhwng Non a'i ffrind. Nodwyd gan nifer yr awdur yn cyfuno arddull sgwrsio ac arddull naratif wrth adrodd ei stori.
- Roedd rhai yn cymysgu gyda barddoniaeth ac yn sôn am linellau hir a byr yn hytrach na brawddegau ac roedd nifer yn methu defnyddio'r termau cywir ac yn camsillafu geiriau allweddol megis cyffelybiaeth ac amrywiaeth.
- Yn gyffredinol, gwallau iaith a chyfyngiadau ieithyddol oedd yn llesteirio mynegiant nifer. Mae hyn yn broblem flynyddol.
- Ambell ymgeisydd wedi ymateb yn aeddfed iawn ond prin oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gynnwys yr holl dechnegau a dyfynnu i bwrpas.
- Anhawster yn egluro effaith y technegau oedd y man gwan eleni eto.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn 2: Trawsieithu

- Ar y cyfan, cafodd yr ymgeiswyr hwyl ar ateb y cwestiwn hwn gan fod y pwnc o ddiddordeb i'r mwyafrif.
- Roedd y goreuon wedi ymateb i'r erthygl yn hyderus a chafwyd atebion aeddfed ac ystyrlon, y gwaith wedi ei gynllunio'n ofalus a'r ymatebion yn dreiddgar.
- Nifer yn cael trafferth i gyfleu'r wybodaeth a'r ffeithiau tra roedd yr elfen o ymateb personol yn well.
- Eleni eto roedd ambell un wedi mynnu llenwi pob tudalen ond heb yr adnoddau iaith i gynnal eu dadleuon ac yn dueddol i ddyfynnu'n Saesneg.
- Yn gyffredinol yn y cwestiwn eto eleni, diffyg adnoddau iaith oedd yn llesteirio gwaith yr ymgeiswyr ac yn rhy aml cafwyd yr un camgymeriadau ag sydd wedi eu nodi yn aml y gorffennol.

Gwallau iaith:

- bod dylai / bod dylen nhw
- bod mae / bod roedd / bod doedd
- defnyddio "siarad" yn hytrach na "dweud".
- ar y dechrau o'r stori
- rhy gormod
- yr iaith yn y stori ydy anffurfiol
- cael / gan / wedi
- cam dreiglo ymhobman
- mae'n nhw
- iachyd = iechyd
- mewn = yn
- yfed = diod (h.y. defnyddio'r ferf yn hytrach na'r enw.)

I godi safonau mae angen:

- gwybodaeth gywir o gynnwys pob stori a'r cymeriadau a chadw wrth y cynnwys wrth ateb cwestiwn 1(i)
- strwythur eglur wrth lunio ateb – cwestiwn 1(ii)
- trafod nodweddion arddull y darn ar y papur yn unig – cwestiwn 1(ii)
- cynnwys enghreifftiau o'r darn wrth drafod yr arddull a nodi eu heffaith – cwestiwn 1(ii)
- peidio â chyfieithu wrth ateb y trawsieithu – cwestiwn 2
- defnyddio patrymau iaith syml – cwestiwn 2.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CA6

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Hen Fanyleb)

Haf 2018

Uwch Gyfrannol/Uwch

Sylwadau cyffredinol

8 o ymgeiswyr ddewisodd sefyll yr arholiad CA6 wrth i ni ffarwelio â'r hen fanyleb eleni ac ar y cyfan boddhaol yn unig oedd y safon ond mae'n rhaid cydnabod bod pob un ohonynt o'r calibr cywir i sefyll yr arholiad.

ADRAN A

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ysgrifennu brawddeg ar gyfer pob berf. Yn flynyddol gwallau bach sy'n colli marciau'n aml e.e. sillafu, treiglo a.y.b. ac nid oedd eleni'n eithriad.

Yn rhy aml nid oedd yr ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gwybod beth oedd amser y ferf trwy ychwanegu 'ddoe', 'yfory', 'neithiwr' a.y.b ac felly'n sgorio dim.

1.(i)

a)	Gofynnodd hi:	un neu ddau'n camddeall ystyr 'gofyn'
ch)	Byddan nhw'n:	ddim bob amser yn adnabod hyn fel y dyfodol
d)	Roedden ni wedi bod:	dim problem o gwbl
dd)	Dylai hi:	prin oedd yr ymgeiswyr oedd yn hyddysg â'r ffurf

(ii)

a) Mae hi'n credu mai:	Yn flynyddol mae'r ymgeiswyr yn methu dilyn 'mai' gyda cymal sy'n dangos pwyslais
b) Pe bawn i'n gallu:	Dyma'r cymal oedd yn achosi'r broblem fwyaf oherwydd nad oeddynt yn cynnwys berf amodol yn yr ail gymal
ch) Pan fydd y tywydd yn braf:	Nid oedd y gweiniaid yn defnyddio'r dyfodol yn yr ail gymal.

2. Yr un sylw a llynedd:
Dylai ymgeiswyr sgorio'n uchel ar y cwestiwn hwn – nid oherwydd symlrwydd y brawddegau ond oherwydd mai iaith sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd sydd yma os oes defnydd cyson o'r Gymraeg yn y gwersi a.y.b.

(i)	his ticket:	fel arfer y treiglad oedd ar goll
(ii)	as good as you:	neb wedi llwyddo i gael hyn yn gywir os gofia i'n iawn
	erbyn hyn:	yn achosi problem
(iii)	who plays:	Cafwyd 'y bachgen pwy sy'n chwarae' gan un neu ddau
	for Wales:	Prin yw'r rhai sy'n gwybod mai 'dros Gymru' sy'n gywir
(v)	I told him	/ that I would be going / on holiday.

Dywed**ais** (i) wrth**o** fe (fo) / (y) bydd**wn** i'n mynd / **ar w**yliau.
Y frawddeg gyfan yn achosi problem.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

ADRAN B

Roedd iaith y gerdd yn weddol syml ac felly roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi'i deall ond rhai wedi deall yn well na'i gilydd wrth reswm ac hefyd rhai wedi strwythuro'r ateb yn well.

Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi cael digon o ymarfer (ar bob lefel) – hynny yw addysgu a dysgu da – yn llwyddo. Roedd strwythur i'w gwaith e.e.

Yn y pennill cyntaf...
Mae'r bardd yn agor ...
Yn yr ail bennill...
Wedyn...
Yn y pennill nesaf...
I gloi...
Ar ddiwedd y gerdd...
Yn pennill tri...

Roedd yr ymgeiswyr hyn yn gallu ysgrifennu cynnwys y gerdd a syniadau'r bardd yn eu geiriau eu hunain ac yn hynny o beth yn dangos eu dealltwriaeth o'r gerdd yn ddigamsyniol.

Roedd y gweiniaid

(i) wedi methu ysgrifennu'n drefnus
(ii) yn dangos nad oedd yr adnoddau ieithyddol ganddynt
(iii) yn ysgrifennu gormod (ac felly'n ailadroddus) / rhy ychydig

Roedd y canlynol yn broblem

- y genidol
- geiriau bach (i, wrth, ar, am)
- yr amhersonol
- brawddegau pwyslais

Roedd yn sioc hefyd gweld 'bod mae' ac 'yn eisiau' yr un mor boblogaidd ag arfer.

Cwestiwn 3(b) sef trafod y technegau oedd yn achosi'r broblem fwyaf. Cafwyd atebion eithaf gwan ar y cyfan a hyn oherwydd nad oedd yr ieithwedd ar gyfer trafod techneg ac arddull ganddynt. Fodd bynnag, llwyddodd un neu ddau ymgeisydd i gefnogi eu sylwadau gyda rhesymau ac enghreifftiau o'r gerdd.
Roedd y problemau'n codi wrth i'r ymgeiswyr ddangos nad oeddynt yn hyddysg ac yn hyfedr yn eu defnydd o'r geiriau allweddol e.e. 'odl', 'ailadrodd', 'cwestiynau rhethregol', 'trosiad', 'delwedd' a.y.b. ac yn aml roedd sillafu'n wallus. Wrth gwrs nid yw cyfeirio at dechneg yn ddigonol i gael marc uchel. Mae'n rhaid rhoi enghraifft o'r gerdd ac hefyd esbonio pam mae'r bardd wedi cynnwys y dechneg yn y gerdd.

(c) **Synoptig**

Yn flynyddol, dyma'r agwedd mwyaf heriol yn yr arholiad CA6. Roedd nifer o ymgeiswyr wedi sôn am 'cyfrifoldeb sydd arnom i wneud pethau dydyn i ddim yn eu hoffi a hefyd pethau sydd ddim bob amser yn hawdd'. Fodd bynnag, nid oedd pob un ohonynt wedi croesgyfeirio. Ni chafwyd unrhyw un yn dewis ysgrifennu am thema hollol amherthnasol heb gymryd unrhyw sylw o'r cwestiwn ar y papur arholiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cyfeiriwyd at:

(i) Ailgylchu
(ii) Hedd Wyn
(iii) Siwan
(iv) Gail fu farw
(v) Pwy fyth a fyddai'n fetel
(vi) Angladd yn y Wlad

a hefyd testunau sydd tu hwnt i'r fanyleb.

Mae'r rhai ar y brig yn parhau i ddangos eu bod wedi cael profiadau da, digon o ymarfer ac wedi cael eu trwytho yn y strategaethau y maent yn gallu galw arnynt mewn arholiad i ateb unrhyw ofyn. Mae hwn yn agwedd anodd ond mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gael digon o ymarfer yn y sgil o ateb cwestiwn ar ei ben.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.